**Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus CNC – 19 Gorffennaf 2023**

**Cwestiynau gan y cyhoedd**

**Kim Waters, Welsh Rivers Union**

**Cwestiwn 1 - O ystyried bod Dŵr Cymru yn disgyn o 4* i 2*, oes gan CNC farn ar ei fethiant ei hun yn y busnes rheoleiddiedig hwn wrth beidio ag atal y methiant hwn gan DCWW yn gynt**

Nid yw'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer cwmnïau dŵr yn ymdrin â holl agweddau rheoleiddio cwmnïau dŵr, mae'r asesiad yn sail i CNC gynyddu neu leihau ei gamau rheoleiddio ar sail perfformiad parhaus. Yn sgil y ffaith bod safonau Dŵr Cymru, a safonau llawer yn y diwydiant, wedi gostwng dros y 24 mis diwethaf, rydyn ni ar hyn o bryd yn adolygu ein cynlluniau gwasanaeth rheoleiddio i sicrhau ein bod yn cynnal yr arolygiadau/archwiliadau angenrheidiol o weithgarwch cwmnïau dŵr i sicrhau bod y cwmni yn cyrraedd safonau uwch.

Lle bo'n briodol, gall hyn arwain at weithgarwch gorfodi uwch, neu fwy o graffu ar y cwmni drwy archwiliad. Dylid nodi bod perfformiad gwael blaenorol wedi arwain at ymyrraeth CNC a chynnydd ym mherfformiad y Cwmni Dŵr i 4* yn 2020.

**Kim Waters, Welsh Rivers Union**

**Cwestiwn 2 - Mae dalgylch Taf (dalgylch nad yw'n ACA) ar ei liniau. Bu cwymp llwyr mewn bioamrywiaeth salmonidau. Cynnyrch llaeth dwys yw'r broblem ac mae'n dod hyd yn oed yn fwy dwys. Ydy'r dalgylch wedi mynd yn angof yn swyddogol neu a oes unrhyw fwriad i'w adfer? Os felly, beth neu ble mae'r cynllun?**

Gan fod cryn sylw'n cael ei roi i'n hafonydd ACA fel y Tywi, gellir deall pam y gall ymddangos bod rhai o'n hafonydd eraill wedi mynd yn angof. Fodd bynnag, mae'r Taf yn sicr wedi'i chynnwys yn rhaglenni fonitro arferol CNC, ac nid yw wedi mynd yn angof o bell ffordd.

Rydyn ni'n ymwybodol o effeithiau amgylcheddol y monitro hwn ar y Taf a'i hisafonydd. Fel hyn, gallwn sefydlu sut mae'r dalgylch yn perfformio o ran poblogaethau pysgod, gydag arolygon yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar nifer o safleoedd. Yn yr un modd, mae monitro ansawdd dŵr yn cael ei wneud i ddarparu rhagor o dystiolaeth. Mae monitro o'r fath yn rhan o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i fynd i'r afael â phroblemau yn ein holl ddalgylchoedd afonydd.

Rydyn ni'n deall bod amaethyddiaeth ddwys yn effeithio ar y dalgylch ac mae nifer o ymweliadau ar droed wedi'u cynllunio ar Afon Taf. Gallai hyn arwain at waith yn cael ei wneud yn y dyfodol agos.

O ran y bysgodfa salmonidau, mae materion ehangach sy'n effeithio ar oroesiad a stoc fagu eogiaid, ond y materion defnydd tir ac ansawdd dŵr mewn rhannau

penodol o'r dalgylch sy'n gronig ac sy’n effeithio ar unrhyw adferiad poblogaethau salmonid. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod dirywiad poblogaeth eogiaid hefyd yn llawer ehangach na'r materion lleol a nodwyd, ac mae’r poblogaethau’n lleihau ar draws Gogledd yr Iwerydd.

I roi ychydig o fanylion ar fonitro pysgodfeydd ar Afon Taf, cynyddodd niferoedd salmonidau ifanc yn 2022. Fodd bynnag, nid yw’r niferoedd o salmonidau hŷn a gafodd eu pysgota ar y wialen yn dangos yr un tuedd, ac ni welir yr un tuedd gyda nifer yr wyau sy’n cael eu dodwy ychwaith. Fodd bynnag, caiff hyn ei gyfrifo ar sail y ddalfa ar y wialen, felly mae’n naturiol gweld rhywfaint o debygrwydd rhwng nifer y pysgod hŷn a’r wyau.

Mae’r gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys data pysgod ifanc mewn cyfrifiadau am nifer yr wyau sy’n cael eu dodwy. O ran dalfeydd hŷn, mae llai o ymdrechion pysgota datganedig ar gyfer dal eogiaid a brithyllod môr felly gall hyn ddarparu rhywfaint o esboniad ynghylch y dirywiad mewn dalfeydd gwialen. Ni ddylai hyn dynnu’r sylw oddi ar 2 agwedd bwysig. Y gyntaf yw pwysau o fewn y dalgylch, amaethyddol yn bennaf dros ddegawd neu fwy. Y ffactor arall yw goroesiad morol salmonidau sydd wedi effeithio ar y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr dros y 10 mlynedd diwethaf neu fwy.

## Moira Williams

**Mewn cyfarfod Achub y Teifi yr wythnos diwethaf, dywedodd Dŵr Cymru wrthym na allent roi unrhyw wybodaeth am lygredd i ochr y môr Aberteifi gan eu bod yn aros am ffigurau gan CNC ynglŷn â lefelau llygredd aber/arforol. Pryd gallai'r ffigurau hyn fod ar gael?**

Ers cyhoeddi'r adroddiad 'Asesiad Cydymffurfiaeth ACA Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws' mae CNC wedi gofyn am gyngor cyfreithiol mewn perthynas â'n Hardaloedd Morol Gwarchodedig. Ar ôl derbyn y cyngor hwnnw, rydyn ni’n adolygu'r data ar ansawdd dŵr morol yn ein hardaloedd ACA. Rydyn ni’n disgwyl darparu rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach eleni.

## Emma Wiik

**Mae gen i gwestiwn am afon Teifi hefyd - beth yw rôl CNC yn y gwlyptiroedd triniaeth sydd wedi’u cynllunio yn y dalgylch gyda Dŵr Cymru? Ydy'r rhain yn cael eu hadeiladu ar sail treial/arbrofol neu ar sail gweithredu?**

Mae CNC wedi rhyddhau Polisi yn ddiweddar mewn perthynas â Gwlyptiroedd Adeiledig. Rydyn ni wedi cytuno i fwrw rhagddi â dau gynnig gan Dŵr Cymru yng Ngwaith Trin Carthffosiaeth Tremeirchion a chyfleuster Gorlif Storm Pont-y-Felin fel safleoedd treialu.

Y bwriad yw defnyddio'r hyn a ddysgwyd a'r dystiolaeth o'r ddau safle, ynghyd â thystiolaeth ehangach o effeithiolrwydd gwlyptiroedd i lywio hyfywedd cyffredinol Gwlyptiroedd ar gyfer trin carthion yng Nghymru. Disgwylir y bydd y ddau dreial yn para dwy flynedd.

Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw dreialon gweithredol yn nalgylch afon Teifi. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynllunio rhoi gwlyptiroedd adeiledig ar waith ar Afon Teifi mewn partneriaeth â DCWW. Nid yw CNC yn ymwneud â'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Cysylltwch â Chyngor Sir Ceredigion am ragor o wybodaeth.